

## **RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithwir ar Zoom ddydd Mawrth, 19 Gorffennaf 2022**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 22 Gorffennaf, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 29 Gorffennaf 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 1 Awst 2022.

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones, Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts a Nicola Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Pip O' Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Liz Wood, Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau:** Dim

(10:00yb - 11:05yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Cofnodion</b> Amherthnasol
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2022 fel rhai cywir.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Amherthnasol</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Amherthnasol</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Amherthnasol</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Amherthnasol</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith</b> Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd Interim
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei</b>

	diweddarau am y cyfnod Awst 2022 i Fawrth 2023, fel y'i cyflwynwyd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 Cyfrifon Drafft 2021/22 a defnydd o'r Balansau ac Arian wrth Gefn</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2021/22. (Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon llawn ar gyfer 2021/22 ar <a href="https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx">https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx</a>).</li> <li>• Nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol, sef £12.050m, a chymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd a nodir yn Nhabl 4 yr adroddiad, a ddaw i gyfanswm o £9.371m.</li> <li>• Nodi Atodiad 4 a chymeradwyo'r balans o £23.181m fel cyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer 2021/22 (£14.079m yn 2020/21). Mae hyn £9.102m yn uwch na 2020/21 ac mae'n cynnwys £9.371m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellir uchod, a newid o £0.269m yn y cronfeydd wrth gefn presennol (er bod hyn yn cynnwys symiau sydd wedi cynyddu a gostwng, sydd bron yn gwneud yn iawn am ei gilydd, yn y cronfeydd wrth gefn presennol).</li> <li>• Nodi'r sefyllfa o ran balansau</li> </ul>

	<p>ysgolion, sef £7.827m.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi balans y CRT o £12.333m.</li> <li>• Cymeradwyo'r cynnydd o £0.261m yng Nghronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau i £1.625m, yn unol â Pholisi Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau 2019/20 ac fel y nodir yn Atodiad 1, Tabl 3 yn yr adroddiad.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Penderfynu ar lefel a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p><b>6 Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio 2022/23</b></p> <p>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion</p>
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cymeradwyo'r cynnydd yn y ffioedd ar gyfer gofal preswyl a nyrsio, fel y nodir isod:</b></li> </ul> <p><b>Preswyl</b></p> <p>£636.80 (Ffi Wreiddiol 2022/23)</p> <p>£643.78 (Ffi Arfaethedig 2022/23)</p> <p>£6.98 (Cynnydd o gymharu â Ffi Wreiddiol 2022/23)</p> <p><b>Preswyl - Henoed bregus eu meddwl (EMI)</b></p> <p>£707.17 (Ffi Wreiddiol 2022/23)</p> <p>£772.29 (Ffi Arfaethedig 2022/23)</p> <p>£65.12 (Cynnydd o gymharu â ffi wreiddiol 2022/23)</p> <p><b>Nyrsio</b></p> <p>£703.79* (Ffi Wreiddiol 2022/23)</p> <p>£752.26* (Ffi Arfaethedig 2022/23)</p> <p>£48.47 (Cynnydd o gymharu â ffi wreiddiol 2022/23)</p>

	<p>Nyrsio – Henoed bregus eu meddwl (EMI)  £800.88* (Ffi Wreiddiol 2022/23)  £896.19* (Ffi Arfaethedig 2022/23)  £95.31 (Cynnydd o gymharu â ffi wreiddiol 2022/23)</p> <p>(*nid yw'n cynnwys cyfraniad iechyd tuag at ofal Nyrsio, sef £179.97 ar hyn o bryd)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bod y newid yn y ffioedd yn dod yn weithredol o'r wythnos yn dechrau 17 Gorffennaf, 2022 er mwyn caniatáu amser i hysbysu cleientiaid a chartrefi am y newid a sicrhau fod y newid yn cyd-fynd â'r patrwm anfonebu.</b></li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Diwygio ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23.</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 Dyfodol yr Uned Cynllunio Polisi ar y Cyd (Ynys Môn a Gwynedd)</b> Adroddiad gan y Prif Swyddog Cynllunio
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bod y cytundeb cydweithio cyfredol ar gyfer darparu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ymestyn hyd at 31 Mawrth 2023.</b></li> <li>• <b>Bod y cytundeb cydweithio, ac felly'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a bod cytundeb mewn egwyddor i sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.</b></li> <li>• <b>Bod y Gwasanaeth Polisi</b></li> </ul>

	<p><b>Cynllunio newydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Bod trefniadau ar gyfer cefnogi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a materion polisi cynllunio perthnasol yn cael eu cyflwyno ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.</b></li> <li><b>Bod hawl yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i gytuno ar drefniadau cydweithio gyda Gwynedd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Aelod Portffolio, er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gwrdd â'r gofynion statudol (ac unrhyw waith cysylltiedig) sy'n angenrheidiol ar gyfer monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.</b></li> </ul>
<b>RHESWM AM Y PENDERFYNIAD</b>	<b>Dechrau'r broses o ddod â'r trefniadau polisi cynllunio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd i ben</b>
<b>DATGANIAD O DDIDDORDEB</b>	<b>Dim</b>
<b>CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?</b>	<b>Dim</b>
<b>YMGYNGHORI, OS O GWBL</b>	<b>Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
<b>A OES MODD EI ALW I MEWN?</b>	<b>Oes</b>

<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>8 Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU</b> Report by the Head of Regulation and Economic Development
<b>PENDERFYNIAD</b>	<b>Penderfynwyd –</b> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cymeradwyo datblygu'r rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin ymhellach ar Ynys Môn, ac yn rhanbarthol, trwy fewnbwn swyddogion ac yn unol â'r</b></li> </ul>

	<p>egwyddorion a nodir yn yr adroddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Aelod Portffolio i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Ynys Môn i'w cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol er mwyn gallu hawlio cyllid y rhaglen.</li> <li>• Cefnogi'r cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol i gyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i Lywodraeth y DU ac arwain y gwaith o wireddu'r rhaglen wedi hynny.</li> <li>• Dirprwyo awdurdod i'r Aelodau Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd a Chyllid, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Arweinyddiaeth, i gymeradwyo blaenoriaethau gwariant Cronfa Ffyniant Gyffredin y Cyngor ar gyfer 2022/23.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cymeradwyo datblygu'r rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 Hunan Asesiad Corfforaethol 2022</b> Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn yr Asesiad a'r rhaglen wella gysylltiedig fel dogfen ddrafft sy'n cydnabod ac yn cyfathrebu sefyllfa bresennol y Cyngor Sir.</li> <li>• Gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i</li> </ul>

	<p>gyflwyno sylwadau ychwanegol yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2022, a</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno'r Asesiad i'r Cyngor Sir ar 13 Medi 2022.</li> <li>Bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiadau diweddarau chwarterol ar gynnydd yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Yn unol â gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Mae Hunan Asesiad Corfforaethol 2022 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 13 Medi, 2022

## EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<p>11 Datblygiad i gynyddu capasiti Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd, gydag Uned Gofal ar safle'r ysgol estyngiedig</p> <p>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr</p>
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu buddsoddiad y Cyngor tuag at ymestyn Ysgol y Graig yn unol ag argymhelliad yr adroddiad.</li> <li>Ariannu 35% o gost adeiladu uned ofal ar safle Ysgol y Graig gyda capasiti ar gyfer 50 o blant fel yr argymhellir yn yr adroddiad. Byddai hyn yn amodol ar ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r 65% sy'n weddill.</li> <li>Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a</li> </ul>

	<p><b>Phobl Ifanc ac i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 i benderfynu, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Portffolio ar gyfer Addysg, Cyllid, a Phlant a Phobl Ifanc, a yw'r Cyngor yn dymuno rhedeg neu gomisiynu'r uned ofal, yn ddibynnol ar ba opsiwn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Gyda chytundeb ymlaen llaw gan Gadeirydd y Cyngor, eithrio hawl y Pwyllgor Sgriwtini i alw'r penderfyniad hwn i mewn. Byddai oedi'r penderfyniad er mwyn caniatáu ar gyfer cyfnod galw i mewn gan y Pwyllgor Sgriwtini yn niweidio budd y Cyngor/cyhoedd gan fod rhaid penodi contractwr erbyn 27 Gorffennaf 2022 i sicrhau fod pris y tendr yn sefyll.</b></li> </ul>
<b>RHESWM AM Y PENDERFYNIAD</b>	<b>Goresgyn heriau cost yn gysylltiedig â'r prosiect</b>
<b>DATGANIAD O DDIDDORDEB</b>	<b>Dim</b>
<b>CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?</b>	<b>Dim</b>
<b>YMGYNGHORI, OS O GWBL</b>	<b>Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
<b>A OES MODD EI ALW I MEWN?</b>	<b>Na. Mae'r penderfyniad wedi'i eithrio o gael ei alw i fewn gyda chytundeb Cadeirydd y Cyngor am y rheswm a nodir uchod.</b>